**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Tim Moss
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu,
Llywodraeth Cymru

26 Chwefror 2024

**Penodiadau Cyhoeddus**

Bu'r Pwyllgor yn trafod eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr 2024, yn ein cyfarfod ar 21 Chwefror 2024.

Roeddem yn siomedig gyda'ch ymateb. Cred y Pwyllgor bod data sy'n ymwneud â'r Gymraeg – a chyfeiriadau ymgeiswyr a phenodeion – yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru, ac y gellid bod wedi'u hasesu i ddarparu rhagor o wybodaeth i gynorthwyo ein hymchwiliad.

Yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor, gwnaethoch gyfeirio at strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru, sef Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi cyfres o gamau gweithredu, gan gynnwys ymrwymiad canlynol:

- *Sefydlu system gadarn ar gyfer casglu data ar wahanol grwpiau gwarchodedig ar Fyrddau; cynnwys grwpiau economaidd-gymdeithasol, gallu ieithyddol, a lleoliad daearyddol.*

Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnir i ymgeiswyr lenwi ffurflen monitro penodiadau, sy'n cynnwys gallu unigolyn i siarad Cymraeg. Yn yr un modd, mae prosesau ymgeisio Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfeiriadau pob ymgeisydd ac, yn sgil hynny, y sawl a benodir.

Yn ôl eich llythyr, nid oedd y cyfnod peilot wedi casglu gwybodaeth Bwrdd am sgiliau Cymraeg, na lleoliad/man preswylio, ond y gellid ystyried hynny ar gyfer casglu data yn y dyfodol. Mae'n ymddangos fel petai hyn yn groes i'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant a grybwyllwyd uchod.

Yn wir, credwn fod y wybodaeth hon ar gael i Lywodraeth Cymru ac y gellid ei choladu i roi ymateb o sylwedd i'r Pwyllgor. Fel y cyfryw, rydym yn eich gwahodd i ailystyried ein llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2023 a mynd i'r afael â phwyntiau 1 i 3 o'ch ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 15 Mawrth 2024.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus